



## **Adroddiad Briffio Gweithdy 2**

### **Thema'r Gweithdy: Adfywio iaith a thrawsnewidiad bywyd teuluol**

**Paratowyd gan Dr Huw Lewis, Dr Elin Royles a'r Athro Wilson McLeod**

**Hydref 2017**



Gwefan: [revitalise.aber.ac.uk](http://revitalise.aber.ac.uk)



E-bost: [revitalise@aber.ac.uk](mailto:revitalise@aber.ac.uk)



Twitter: [@\\_revitalise](https://twitter.com/_revitalise)



## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Cyflwyniad	5
Y syniad o blant fel actorion cymdeithasol cyflawn	6
Polisi iaith y teulu a chyfyngiadau ymchwil cyfoes	7
Ystyriaethau pwysig wrth gysyniadoli trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau	8
Sefydliadoli, proffesiynoli a rheoleiddio ym maes gofal plant	10
Galluoedd ac agweddau ieithyddol rhieni	12
Dylanwad technoleg ar batrymau ymwneud o fewn y cartref	14
Atodiad: Rhaglen y gweithdy	16



## Crynodeb Gweithredol

- Mae'r papur hwn yn adrodd ar ail weithdy'r prosiect **Adfywio** a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caeredin rhwng 8 a 9 Medi 2017. Teitl y gweithdy oedd '**Adfywio iaith a thrawsnewidiad bywyd teuluol**', a'i nod oedd rhoi cyfle i feddwl yn feirniadol am newidiadau diweddar i'r modd mae teuluoedd yn trefnu eu bywydau bob dydd ac yn gofalu am blant a'u goblygiadau i'n dealltwriaeth o sut i adfywio ieithoedd. Mae'r prif gasgliadau a ddeilliodd o'r gweithdy wedi'u rhestru isod.
- **Y syniad o blant fel actorion cymdeithasol cyflawn (tt. 6-7).** Mae ymchwil diweddar ym maes astudiaethau plentyndod wedi pwysleisio'r angen i drin plant fel actorion cymdeithasol yn eu hawl eu hunain. Mae hyn yn galw am gydnabod bod plant yn meddu ar y gallu i fynegi dymuniadau a safbwyntiau ar faterion pwysig, a hefyd yn meddu ar y gallu i ddylanwadu ar sefyllfaoedd. Golyga hefyd gydnabod bod plant yn meddu ar y gallu i ddal ac arddel hawliau. Mae angen i ymchwilwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes adfywio iaith roi ystyriaeth ofalus i syniadau o'r fath: beth fyddai goblygiadau mabwysiadu safbwynt ar adfywio iaith sy'n rhoi pwyslais ar hawliau plant?
- **Polisi iaith y teulu a chyfyngiadau ymchwil cyfoes (tt. 7-8).** Tra bo'r degawdau diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymchwil sy'n canolbwyntio ar bolisi iaith y teulu, mae cyfyngiadau i'r gwaith a gyhoeddwyd hyd yn hyn. Er enghraifft, mae'r llenyddiaeth wedi tueddu i ganolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar arferion iaith o fewn teuluoedd dau riant, heterorywiol sy'n byw mewn gwledydd Gorllewinol. Nid yw'r ymchwil wedi ymateb i'r amrywiaeth o ffurfiau teuluol sydd bellach yn fwyfwy cyffredin, er enghraifft trwy roi sylw hefyd i sefyllfa teuluoedd ag un rhiant neu deuluoedd â rhieni hoyw.
- **Ystyriaethau pwysig wrth gysyniadoli trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau (tt. 8-9).** Mae'r llenyddiaeth polisi ac ymchwil sy'n trafod adfywio iaith wedi pwysleisio'n gyson bod trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau yn faes cwbl allweddol. Fodd bynnag, mae ymdrechion i gloriannu gwir arwyddocâd trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau wedi'u tanseilio gan y ffaith na chafodd y broses ei chysyniadoli mewn modd boddhaol. Mae galw am roi mwy o ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng dylanwad ffactorau yn y cartref a dylanwad ffactorau cymdeithasol allanol, a hefyd ystyriaeth fwy manwl i gyfraniad gweithredol plant wrth sefydlu arferion iaith y cartref.
- **Sefydliadoli, proffesiynoli a rheoleiddio ym maes gofal plant (tt. 10-12).** Wrth i deuluoedd wneud defnydd helaethach o ystod o ddarparwyr gofal ar gyfer plant (meithrinfeydd dydd, gofalwyr plant cofrestredig, grwpiau chwarae, clybiau ar ôl ysgol ac yn y blaen), cyflwynwyd fframweithiau statudol gwahanol er mwyn rheoleiddio'r maes a rhoddwyd pwyslais cynyddol ar yr angen i staff feddu ar gymwysterau perthnasol. Mae datblygiadau o'r fath wedi golygu bod angen bellach i gyrff neu fentrau sy'n ymdrechu i hybu'r broses o gaffael iaith leiafrifol ymhlith plant ifanc ymgodymu ag ystod o gyrff rheoleiddio gwahanol a bodloni amrywiaeth eang o safonau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â iaith.
- **Galluoedd ac agweddau ieithyddol rhieni (tt. 12-14).** Mae angen i ymyraethau sy'n ymdrechu i hybu'r broses o gaffael iaith leiafrifol ymhlith plant ifanc gydnabod y galluoedd a'r agweddau iaith amrywiol a geir ymhlith rhieni. Bydd rhai rhieni sydd am drosglwyddo'r



## Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 2

iaith i'w plant yn siaradwyr rhugl, hyderus, tra bydd rhuglder a hyder rhieni eraill yn dipyn mwy cyfyngedig. Yn ogystal, ni fydd pob rhiant sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu trwy gyfrwng iaith lleiafrifol yn seilio eu penderfyniad ar ymrwymiad cryf i adfywiad yr iaith honno. Er enghraifft, mewn rhai achosion mae'n bosib y bydd cred yn y manteision gwybyddol tybiedig sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd neu amlieithrwydd yn gymhelliad pwysicach.

- **Dylanwad technoleg ar batrymau ymwneud o fewn y cartref (t. 14).** Mae technoleg ddigidol yn trawsnewid sut mae aelodau o'r teulu yn ymwneud â'i gilydd, ac yn benodol, sut mae plant ifanc yn chwarae a dysgu. O ystyried hyn, mae angen i'r sawl sy'n gweithio ym maes adfywio iaith fagu dealltwriaeth o sut gellir harneisio 'arferion chwarae digidol' cyfoes er mwyn hybu a chefnogi ymdrechion i gaffael a defnyddio ieithoedd lleiafrifol yn y cartref.



## Adfywio iaith a thrawsnewidiad bywyd teuluol

### 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r papur hwn yn adrodd ar **ail weithdy prosiect Adfywio a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caeredin ar 8-9 Medi 2017**. Rhwydwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol yw Adfywio, a gaiff ei ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (y Deyrnas Unedig), sydd â'r nod o astudio goblygiadau rhai o'r newidiadau cymdeithasol, economaidd, a gwleidyddol cyfoes a welir ar draws cymdeithasau gorllewinol i'n dealltwriaeth o'r modd y dylid llunio a gweithredu ymdrechion adfywio iaith. Mae'r rhwydwaith yn dwyn ynghyd grŵp rhyngwladol o ymchwilwyr academiaidd sy'n cwmpasu'r celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, ynghyd â nifer o ymarferwyr polisi blaenllaw. Caiff y rhwydwaith ei arwain gan Dr Huw Lewis (Prifysgol Aberystwyth), yr Athro Wilson McLeod (Prifysgol Caeredin) a Dr Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth).
- 1.2. Teitl yr ail weithdy oedd '**Adfywio iaith a thrawsnewidiad bywyd teuluol**', a'i nod oedd rhoi cyfle i feddwl yn feirniadol am newidiadau diweddar i fywyd teuluol ac ystyried syniadau ynghylch y modd yr ydym yn ymdrin ag adfywio ieithoedd. Yn ystod y gweithdy, anogwyd y cyfranogwyr i ystyried goblygiadau datblygiadau megis: amrywiaeth cynyddol yng nghyfansoddiad unedau teuluol; y newid graddol yn y cydbwysedd rhwng y rhywiau a chynnydd yn nifer y merched yn y farchnad lafur; y newidiadau cysylltiedig yn y modd y bydd rhieni yn gofalu am eu plant o ddydd i ddydd, gan gynnwys rôl gynyddol neiniau a theidiau, yn ogystal ag amrywiaeth o ddarparwyr gofal proffesiynol; a dylanwad technoleg ar batrymau ymwneud o fewn y cartref, gan gynnwys patrymau chwarae a dysgu ymhlith plant ifanc.
- 1.3. Mae'r papur hwn yn crynhoi prif elfennau'r drafodaeth yn ystod y gweithdy, gan gyfeirio at yr 16 o gyflwyniadau a gafwyd yn ystod y deuddydd, yn ogystal â'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd yn ystod y sesiynau trafod dilynol. Mae deunydd pellach o'r gweithdy, gan gynnwys clipiau fideo byr o'r cyfranwyr yn trafod eu cyflwyniadau, i'w gweld ar wefan y prosiect: <https://revitalise.aber.ac.uk/cy>. Mae copi o raglen y gweithdy i'w gweld ar ddiwedd y papur hwn.
- 1.4. Mae'r papur hwn wedi'i drefnu yn ôl cyfres o themâu a gododd yn ystod trafodaethau'r gweithdy. Mae'r adrannau sy'n dilyn felly yn canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i'r themâu canlynol:
  - Y syniad o blant fel actorion cymdeithasol cyflawn
  - Polisi iaith y teulu a chyfyngiadau ymchwil cyfoes
  - Ystyriaethau pwysig wrth gysyniadoli trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau
  - Sefydliadoli, proffesiynoli a rheoleiddio ym maes gofal plant
  - Galluedd ac agweddau ieithyddol rhieni
  - Dylanwad technoleg ar batrymau ymwneud o fewn y cartref



## 2. Y syniad o blant fel actorion cymdeithasol cyflawn

- 2.1. Rhoddodd cyflwyniadau agoriadol y gweithdy, gan yr Athro Lynn Jamieson a'r Athro Kay Tisdall, drosolwg defnyddiol o'r themâu a'r safbwyntiau allweddol a welwyd mewn ymchwil diweddar yn ymwneud â chymdeithaseg teuluoedd a chymdeithaseg plentyndod. Un o'r materion pwysig a godwyd yn ystod y cyflwyniadau hyn oedd y pwyslais cynyddol ymhlith cymdeithasegwyr ac addysgwyr ar yr angen i ystyried plant fel actorion cymdeithasol yn eu hawl eu hunain. Dangosodd y drafodaeth ddilynol fod y mater hwn yn arbennig o berthnasol i ymchwilwyr ac ymarferwyr sy'n canolbwyntio ar adfywio ieithoedd.
- 2.2. Esboniodd Tisdall fod y ddau ddegawd diwethaf wedi cyflwyno paradeim newydd i waith ymchwilwyr ym maes eang astudiaethau plentyndod. Yr agwedd draddodiadol ymhlith ysgolheigion yn y maes hwn oedd tybio bod oedolion yn actorion rhesymegol cyflawn, ac y dylid ystyried plant fel cymeriadau anorffenedig - llestri gweigion nad oedd yn meddu ar y gallu i weithredu fel actorion ystyrion. Serch hynny, heriwyd yr agwedd honno, gyda charfan newydd o ymchwilwyr yn pwysleisio'r angen i ystyried plant fel actorion cymdeithasol cyflawn yn eu hawl eu hunain. Yn ôl Tisdall, mae nifer o oblygiadau yn perthyn i safbwynt mor wahanol ar gyfer ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol a rhaglenni polisi cyhoeddus fel ei gilydd. Ymhlith pethau eraill, mae'n golygu cydnabod bod plant yn meddu ar y gallu i fynegi dymuniadau a safbwyntiau ar faterion pwysig, a'u bod hefyd yn meddu ar y gallu i ddylanwadu ar sefyllfaoedd. Golyga hefyd gydnabod bod plant yn meddu ar y gallu i ddal ac arddel hawliau.
- 2.3. Arweiniodd yr ystyriaethau hyn at drafodaeth ddiddorol ynghylch goblygiadau posibl mabwysiadu agwedd sy'n rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses o adfywio ieithoedd. Yn amlwg, o ystyried tuedd ymdrechion adfywio iaith i ganolbwyntio ar y dyfodol, a'r pwyslais a roddir ar drosglwyddo arferion ieithyddol 'da' o un genhedlaeth i'r llall, mae plant yn nodwedd amlwg yn y gwaith hwn. Eto i gyd, rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith, bod y llenyddiaeth ymchwil a pholisi sy'n trafod ymdrechion adfywio iaith wedi tueddu, hyd yma, i gael ei lywio gan ddehongliad mwy traddodiadol o allu gweithredol plant. Ar sail hyn, nodwyd cyfres o gwestiynau y mae angen eu hystyried ymhellach yng ngoleuni'r pwyslais diweddar ar y syniad o blant fel actorion cymdeithasol yn eu hawl eu hunain:
- Mewn cyd-destun lle rhoddir pwyslais cynyddol ar yr angen i gydnabod gallu a dewisiadau plant, sut dylai ymgyrchwyr o blaid ieithoedd lleiafrifol gynllunio a gweithredu ymyraethau sydd â'r nod o hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r iaith darged? A fyddai mabwysiadu agwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn arwain at strategaeth wahanol?
  - Sut dylai ymgyrchwyr o blaid ieithoedd lleiafrifol sy'n dymuno cymryd gallu gweithredol plant o ddifrif, ymateb pan fo plentyn, boed mewn ffordd amlwg neu yn ymhlwg, yn ymwrthod â'r iaith darged (e.e. yn gwrthod siarad yr iaith ac yn ateb mewn iaith arall)?
  - Prin yw'r cyfreithiau neu gymalau cyfansoddiadol sy'n pennu hawliau ieithoedd lleiafrifol, yn enwedig yng nghyd-destun addysg, sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at blant. Yn hytrach, cyfeirir at hawliau a buddiannau rhieni neu'r gymuned ieithyddol yn gyffredinol. A ellir cydbwyso dulliau o'r fath â'r pwyslais cynyddol ar statws plant fel deiliaid hawliau? A fyddai mabwysiadu ymagwedd hawliau plant ar gyfer hyrwyddo



ieithoedd lleiafrifol yn cynnig cyfleoedd newydd - e.e. wrth ystyried buddiannau'r plentyn yng nghyd-destun rhieni a allai fod yn wrthwynebus i'r iaith darged?

### 3. Polisi iaith y teulu a chyfyngiadau ymchwil cyfoes

- 3.1. Yn ei chyflwyniad, rhoddodd yr Athro Kendall King ystyriaeth i esblygiad polisi iaith y teulu fel maes ymchwil penodol. Gellir magu dealltwriaeth well o'r cysyniad o bolisi iaith y teulu trwy gyfeirio at ddehongliad cyffredinol Bernard Spolsky o bolisi iaith a'i gymhwyso yng nghyd-destun y teulu.<sup>1</sup> Dadl Spolsky oedd y gellir deall polisi iaith yn gyffredinol fel mecanwaith eang sy'n llywio ymddygiad ieithyddol pobl mewn cyd-destunau cymdeithasol gwahanol. Yn hyn o beth, mae polisi iaith yn cynnwys tair elfen wahanol: yn gyntaf, agweddau cyffredinol tuag at ieithoedd gwahanol (credoau); yn ail, patrymau arferol o ymwneud ieithyddol (arferion); ac yn drydydd, ymdrechion pwrpasol i ddylanwadu ar un ai'r credoau neu'r arferion hyn (rheoli). O ganlyniad, mae polisi iaith y teulu wedi'i ystyried fel dull o reoli ymddygiad ieithyddol yng nghyd-destun penodol y cartref teuluol, a bydd ei ffurf yn deillio o'r cyswllt rhwng credoau, arferion a gweithgareddau rheoli ieithyddol gwahanol aelodau'r teulu.
- 3.2. Eglurodd King y bu cryn gynnydd yn yr ymchwil sy'n canolbwyntio ar bolisi iaith y teulu ers y 1990au. Serch hynny, gan y bu'r tri degawd blaenorol yn gyfnod o newid sylweddol i natur bywyd teuluol, mae bellach galw am bwysu a mesur: i ystyried yr hyn a ddysgwyd, ond hefyd i ystyried pa fylchau mewn gwybodaeth y mae angen eu llenwi.
- 3.3. Roedd King yn dadlau dros gydnabyddiaeth ehangach i dri chyfyngiad amlwg yn yr ymchwil sy'n canolbwyntio ar bolisi iaith y teulu. Yn gyntaf, mae'r llenyddiaeth wedi tueddu i ganolbwyntio ar ystod gul o amgylchiadau teuluol, gan ganolbwyntio ymron yn llwyr ar arferion iaith mewn teuluoedd dau riant heterorywiol. Nid yw'r ymchwil wedi ymateb i'r amrywiaeth o ffurfiau teuluol sydd bellach yn fwyfwy cyffredin, er enghraifft trwy roi sylw hefyd i sefyllfa teuluoedd ag un rhiant neu deuluoedd â rhieni hoyw. Roedd King yn dadlau y gallai bwlch o'r fath yn yr ymchwil fod yn arwyddocaol gan fod ymchwil yn awgrymu y gallai cyfansoddiad yr uned deuluol ddylanwadu ar batrymau rhyngweithio. Er enghraifft, mae rhai wedi damcaniaethu y gallai teuluoedd un rhiant fod yn fwy tebygol o ddyrchafu gallu sgysiol plant am eu bod yn fwy tebygol o gael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau.
- 3.4. Yn ail, mynegodd King bryder ynghylch natur y dulliau ymchwil a gaiff eu blaenoriaethu ym maes polisi iaith y teulu. Dadleuai y bu gorddibyniaeth ar gyfweiliadau a holiaduron fel dulliau o gasglu data. Er y gall dulliau o'r fath ganiatáu i'r ymchwilydd gasglu cryn dipyn o wybodaeth, mae risg y bydd y data yn adlewyrchu'r modd y mae aelodau'r teulu (rhieni, yn benodol) yn credu maent yn ymddwyn, neu sut y byddant yn dymuno i'r ymchwilydd feddwl maent yn ymddwyn, yn hytrach nag adrodd ynghylch yr hyn sy'n digwydd go iawn. Roedd y pryder hwn yn gysylltiedig â llenyddiaeth gynyddol sydd wedi edrych ar rôl cyfweiliadau fel perfformiadau yn hytrach nag offerynnau ymchwil gwyddonol. Felly, roedd King yn dadlau bod angen i ymchwil i bolisi iaith y teulu yn y dyfodol ategu'r defnydd o gyfweiliadau gyda dulliau sy'n fwy arsylwadol ac sy'n cynnwys dimensiwn hydredol cryfach.

<sup>1</sup> Bernard Spolsky, *Language Policy* (Caergrawnt, Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2004).



- 3.5. Yn drydydd, dadl King oedd bod angen i ymchwil polisi iaith y teulu yn y dyfodol roi pwyslais pellach ar y dasg o gyffredinoli ac adeiladu damcaniaethau. Hyd yma, mae'r pwyslais wedi bod ar ddatblygu catalog o astudiaethau manwl sy'n tueddu i ganolbwyntio ar niferoedd bychan o deuluoedd/achosion. Serch hynny, mae angen ehangu'r ffocws erbyn hyn, drwy geisio cymharu a chyffredinoli ar draws achosion empiraidd gwahanol. Fel rhan o'r ymdrech hon, dadleuai King fod angen gwneud ymdrech i holi cwestiynau ymchwil mwy damcaniaethol.

#### 4. Ystiriaethau pwysig wrth gysyniadoli trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau

- 4.1. Rhoddwyd pwyslais cyson ar y teulu, ac yn arbennig, ar y broses o drosglwyddo iaith rhwng rhieni a phlant fel maes allweddol o bryder yng nghyd-destun llenyddiaeth ymchwil a pholisi sy'n ymwneud ag adfywio ieithoedd. I raddau helaeth, mae hyn yn deillio o'r amlygrwydd a roddwyd i drosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau yng ngraddfa ddylanwadol Joshua Fishman, sef Graddfa Bylchau rhwng Cenedlaethau, a bennwyd fel dyfais i gynorthwyo â'r broses o flaenoriaethu ymyraethau wedi'u cynllunio i wyrddroi newid ieithyddol.<sup>2</sup> Serch hynny, yn ystod y gweithdy, dadleuwyd nad oedd trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau wedi'i gysyniadoli mewn modd boddhaol hyd yma, ac o ganlyniad, nid oedd yn bosibl asesu ei wir arwyddocâd, na phenderfynu ar yr hyn y gellid ei wneud i ddylanwadu ar y broses. Honnwyd mai ychydig iawn a wyddom o hyd ynghylch trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau fel proses, gan gynnwys sut mae'n gweithio, pa fath o ffactorau sy'n dylanwadu arni, a pha fath o ganlyniadau y gellid eu rhagweld. Gyda'r nod o ddatblygu cysyniadoliad cryfach o drosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau, roedd nifer o gyflwyniadau'r gweithdy yn amlygu themâu neu faterion allweddol y dylid eu hystyried.
- 4.2. Dadl King oedd bod angen i unrhyw drafodaeth ynghylch trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau osgoi egluro'r broses mewn termau deuaidd syml - h.y. bod trosglwyddiad iaith naill ai 'ymlaen' neu 'i ffwrdd', yn digwydd neu ddim yn digwydd mewn gwahanol amgylchiadau teuluol. Mae ymchwil i bolisi iaith y teulu ers diwedd y 1990au wedi amlygu natur 'anniben' gynhenid patrymau defnydd iaith mewn nifer o gartrefi a hefyd y modd y bydd amrywiaeth o bwysau gwahanol yn dylanwadu ar y patrymau hyn.
- 4.3. Gan ymhelaethu ar y pwynt uchod, dadleuai Dr Jeremy Evas ei bod yn bwysig ymatal rhag tybio mai proses yw trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau, sy'n deillio o gyfres o benderfyniadau rhesymegol a bwriadol ar ran y rhieni. Yn hytrach, bydd trosglwyddiad iaith yn aml yn deillio o ymddygiad anymwybodol nas cynllunnir, yn arbennig mewn cyd-destunau ieithyddol mewndarddol (endogenous). Seiliai Evas y ddadl hon ar gasgliadau astudiaeth ddiweddar oedd yn edrych ar batrymau trosglwyddo iaith mewn detholiad o deuluoedd sy'n byw yng ngogledd orllewin a de ddwyrain Cymru.<sup>3</sup>

<sup>2</sup> Joshua A. Fishman, *Reversing Language Shift* (Clevedon, Multilingual Matters, 1991).

<sup>3</sup> Jeremy Evas, Jonathan Morris a Lorraine Whitmarsh, *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd* (Caerdydd, Llywodraeth Cymru, 2017). Ar gael ar-lein: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/welsh-language-transmission-use-in-families/?lang=cy>





- 4.4. Roedd cyflwyniadau gan King, Evas a hefyd Dr Tina Hickey yn amlygu, mewn amryw ffyrdd, bwysigrwydd ystyried trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau fel proses na chaiff ei dylanwadu gan ffactorau mewnol yn y cartref yn unig. Mae'r arferion iaith y bydd rhieni yn eu mabwysiadu gyda'u plant (boed hynny'n ymwybodol ai peidio) yn aml yn gysylltiedig â ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Yn wir, eglurodd Evas i'w gasgliadau awgrymu bod ffactorau cymdeithasol yn tueddu i chwarae rhan bwysicach na ffactorau seicolegol (e.e. agweddau rhieni unigol tuag at yr iaith darged). O ganlyniad, dylai'r rheini sy'n ymwneud ag adfywio ieithoedd ymatal rhag gweld y cartref fel pau ynysig neu ar wahân. Er mwyn cysyniadoli'r broses o drosglwyddo iaith rhwng rhiant a phlentyn mewn modd soffistigedig, bydd angen asesu pa ffactorau dylanwadol sy'n deillio o'r cartref a pha ffactorau sy'n deillio o du allan y cartref sy'n dylanwadu ar y broses, yn ogystal ag asesu sut mae pob cyfres o ffactorau yn rhyngweithio â'i gilydd.
- 4.5. O ran y mathau penodol o ffactorau sy'n deillio o'r cartref a allai helpu i hyrwyddo trosglwyddiad rhwng cenedlaethau effeithlon, nododd Dr Tina Hickey yr angen i ystyried, nid yn unig 'cyfanswm y mewnbwn', ond hefyd 'ansawdd y mewnbwn'. Mae cyfanswm y mewnbwn yn cyfeirio at ba mor aml y caiff yr iaith darged ei defnyddio yn y cartref, ac yn arbennig pa mor aml y caiff ei defnyddio fel rhan o'r sgwrs rhwng rhieni a phlant. Dyma yw'r prif ffactor a ystyrir fel arfer wrth archwilio patrymau trosglwyddiad rhwng cenedlaethau. Serch hynny, yn ôl Hickey, mae ansawdd y mewnbwn, sef y modd y caiff yr iaith darged ei defnyddio wrth sgwrsio â phlant, ac i ba raddau y cynhelir y sgwrs mewn modd sydd wedi'i gyfeirio at y plentyn, hefyd yn ffactor a allai ddylanwadu ar effeithiolrwydd y trosglwyddiad rhwng cenedlaethau. Gallai hyn fod yn ystyriaeth arbennig o berthnasol pan nad yw'r rhieni yn siaradwyr rhugl yn yr iaith darged ac felly yn meddu ar ystod sgysiol fwy cyfyngedig (gweler Adran 6 isod am drafodaeth bellach ar y materion hyn).
- 4.6. Mater pellach a amlygwyd gan Dr Cassie Smith-Christmas a'r Athro Kendall King (sy'n gysylltiedig â phwyntiau a godwyd gan yr Athro Kay Tisdall o ran y datblygiadau ym maes cymdeithaseg plant) oedd yr angen i gydnabod gallu gweithredol y plentyn. Mae'n hanfodol na chaiff proses trosglwyddiad rhwng cenedlaethau ei gweld fel proses unffordd syml, lle bydd rhieni yn cyflwyno iaith benodol a'r plentyn yn gweithredu fel derbynnnydd goddefol. Nid yw ymagwedd o'r fath yn cydnabod pwysigrwydd y rôl y gall y plentyn ei chwarae o ran ymwrthod neu o ran cyd-greu polisi iaith y teulu, un ai drwy ryngweithio â rhieni (e.e. yn ystod sgysiau dros y bwrdd bwyd) neu drwy ryngweithio â brodyr a chworydd (e.e. o ran y modd y maent yn strwythuro eu chwarae). Ar y sail hon, mae'n hanfodol i'r rheini sy'n ceisio datblygu dealltwriaeth well o'r modd y trosglwyddir iaith rhwng cenedlaethau sicrhau bod astudiaethau ymchwil yn y dyfodol yn ystyried y broses o safbwynt y plentyn yn ogystal ag o safbwynt yr oedolyn. Edrychwyd yn fanwl ar y pwynt olaf hwn yn ystod cyflwyniad Cassie Smith-Christmas.
- 4.7. Yn ystod ei gyflwyniad, canolbwyntiodd Dr Michael Hornsby ar achos y Llydaweg, gan amlygu nad yw trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau bob amser yn deillio o'r syniad delfrydol bod dau riant 'iaith gyntaf' yn trosglwyddo iaith i'w plant. Yn sgil chwalfa ieithyddol yn ystod y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif, tanseiliwyd y broses 'draddodiadol' hon o drosglwyddo'r Llydaweg. Serch hynny, dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd dulliau gwahanol, 'creadigol' o drosglwyddo'r iaith. Gall y dulliau hyn gynnwys dulliau addysgol (trochi neu addysg 'ail iaith'), trosglwyddo iaith rhwng oedolion (gan gynnwys rôl bwysig i



neiniau a theidiau), a hefyd 'siaradwyr newydd' yn trosglwyddo iaith i'w plant. Dadl Hornsby oedd y dylai rôl dulliau gwahanol o'r fath hefyd gael eu cynnwys wrth drafod trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau. At hynny, er na fyddai llwybrau o'r fath o reidrwydd yn arwain at gymwyseddau iaith union debyg (e.e. o ran acen, ffyrdd o siarad ac yn y blaen), dylid bod yn ofalus i beidio â'u darlunio fel ffyrdd diffygiol neu ffyrdd sy'n llai dilys na'r llwybr 'iaith gyntaf' traddodiadol, gan y gallai hyn arwain at gynyddu tyndra mewn cymuned ieithyddol.

- 4.8. Yn olaf, yn ei gyflwyniad, cyfeiriodd Dr Andy Hancock y ffocws oddi ar gyd-destun ieithoedd Celtaidd, gan fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebdir gan deuluoedd o dras mewnfudwyr yn yr Alban, sy'n ceisio trosglwyddo iaith eu treftadaeth. Mae nifer fawr o ysgolion cyflenwol wedi'u sefydlu gan rieni o gymunedau iaith gwahanol. Mae eu nodau a'u dyheadau o ran eu hieithoedd yn amrywio'n fawr, yn yr un modd ag y mae'r dulliau addysgiadol a ddefnyddir yn yr ysgolion cyflenwol gwahanol hyn yn amrywio. Canolbwyntiodd Dr Hancock yn benodol ar yr ysgolion a drefnwyd gan y gymuned Tsieinaidd sydd wedi ymsefydlu (siaradwyr Cantoneg neu Hakka, sydd â'u gwreiddiau yn Hong Kong), gan ganolbwyntio ar y dulliau a ddefnyddiwyd i ddatblygu llythrennedd mewn Tsieineeg.

## 5. Sefydliadoli, proffesiynoli a rheoleiddio ym maes gofal plant

- 5.1. Roedd nifer o gyflwyniadau'r gweithdy yn ystyried y modd y mae'r cynnydd yn nifer y merched yn y farchnad lafur, ynghyd â newidiadau cysylltiedig yn y modd y mae rhieni yn gofalu am eu plant o ddydd i ddydd, yn codi cwestiynau newydd i'r rheini sy'n ymwneud ag adfywio ieithoedd lleiafrifol, yn enwedig o ran y nod o hybu caffael yr iaith darged ymhlith plant ifanc.
- 5.2. Yn ystod ei chyflwyniad, rhoddodd yr Athro Lynn Jamieson drosolwg clir o'r newidiadau rhyweddol sy'n trawsnewid bywyd teuluol ers degawdau bellach. Mae'r syniad traddodiadol o'r 'fam sy'n aros adre' a oedd yn gyffredin am gyfnod helaeth o'r 20fed ganrif, bellach yn eithriad. Yn ei le, mae'r model o deuluoedd â dau enillydd cyflog bellach yn norm newydd ar draws y mwyafrif o wledydd y Gorllewin. O ganlyniad, mae agweddau cymdeithasol a pholisi cymdeithasol fel ei gilydd wedi dod i dybio bod disgwyliad y bydd merched yn ennill cyflog ac yn cyfrannu at y farchnad trwy gydol eu hoes. Os bydd merched yn ymneilltuo o'r farchnad lafur i gael plant, mae'n debygol y byddant yn dychwelyd maes o law. At hynny, o ganlyniad i'r newid hwn, bu'n rhaid i deuluoedd addasu'r ffordd y byddant yn gofalu am eu plant o ddydd i ddydd. Mewn rhai cyd-destunau, mae hyn wedi cynnwys neiniau a theidiau yn ysgwyddo mwy a mwy o ddyletswyddau gofal plant. Serch hynny, mae teuluoedd hefyd yn gwneud defnydd helaethach o ystod o ddarparwyr gofal plant cyn ysgol ac ôl ysgol penodedig (meithrinfeydd dydd, gofalydd plant cofrestredig, grwpiau chwarae, clybiau ar ôl ysgol ac yn y blaen). Yn eu tro, mae'r datblygiadau hyn o ran darparwyr gofal plant - sydd ynghlwm â'r pwyslais newydd ar hawliau plant (gweler pwynt 2.2 uchod) - wedi sbarduno fframweithiau statudol a pholisiau sy'n rheoleiddio darpariaeth gofal plant ac sy'n cynyddu'r angen am hyfforddiant perthnasol a chymwysterau proffesiynol i'r sawl sy'n gweithio yn y maes.



- 5.3. Roedd sawl un o'r pwyntiau cyffredinol hyn hefyd yn codi, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn ystod cyflwyniadau eraill. Er enghraifft, wrth drafod gwaith *Mudiad Meithrin*, esboniodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, yn sgil y fframweithiau rheoleiddio sydd bellach yn bodoli ym maes gofal plant, fod swm sylweddol o waith y sefydliad yn ymwneud â chyrrff nad oes ganddynt unrhyw gyswllt â gwaith hyrwyddo'r Gymraeg. Yn wir, awgrymwyd mai'r sefydliadau mwyaf dylanwadol o ran gwaith bob dydd *Mudiad Meithrin* oedd y rheini sy'n gyfrifol am fonitro lles plant a chynnal safonau gofal (e.e. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru), ac nid y rheini sy'n gysylltiedig â gweinyddu polisi iaith yng Nghymru. Ni chodwyd pwyntiau o'r fath fel beirniadaeth ar y trefniadau rheoleiddiol sy'n bodoli o ran darpariaeth gofal plant - mae rhesymau da iawn paham eu bod wedi'u cyflwyno. Ar yr un pryd, mae enghraifft o'r fath yn amlygu'r ffaith bod angen i sefydliadau fel *Mudiad Meithrin*, sydd â'r nod o hyrwyddo caffael iaith leiafrifol a'i defnydd ymhlith plant ifanc, ymwneud â meysydd rheoleiddiol cymhleth er mwyn bodloni cyfres o safonau sylfaenol nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â iaith. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith o sicrhau y caiff ystyriaethau ieithyddol craidd eu cwmpasu, er enghraifft, bod gan bob aelod o staff y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol, a'u bod hefyd yn gyfarwydd â dulliau o gyflwyno'r iaith i blant ifanc, yn enwedig y plant hynny nad ydynt yn siarad yr iaith gartref. Nid oedd y cyfuniad hwn o heriau yn bodoli pan sefydlwyd *Mudiad Meithrin* ddechrau'r 1970au.
- 5.4. Er ei bod ar raddfa lai o gymharu â Mudiad Meithrin, codwyd pwynt tebyg gan Órlaith Ruiséal yn ystod cyflwyniad a oedd yn trafod gwaith *Tús Maith*, menter yn y *Gaeltacht* yn Swydd Ceri, sydd â'r nod o gefnogi teuluoedd i fagu eu plant gyda'r Wyddeleg yn ogystal â'r rheini sydd am ddefnyddio mwy o Wyddeleg yn eu bywydau bob dydd. Mae *Tús Maith* yn trefnu grwpiau chwarae, ymweliadau iaith yn y cartref a *Scléip an tSathairn*, sesiynau gweithgareddau i'r teulu er mwyn cynorthwyo rhieni â'u hymdrechion. Hefyd, mae *Tús Maith* wedi sefydlu canolfan adnoddau i'r teulu yn ddiweddar yn Ballyferriter fel canolfan i'w gweithgareddau. Serch hynny, mae staffio'r ganolfan wedi bod yn heriol oherwydd yr angen i ddod o hyd i unigolion â'r sgiliau iaith Wyddeleg angenrheidiol a'r cymwysterau gofynnol ym maes gofal plant. Mae'r ffaith bod y ganolfan wedi'i lleoli mewn rhan o lwerddon sy'n wynebu diboblogi wedi ychwanegu at yr her, yn ogystal â'r ffaith bod cyflog i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal plant yn tueddu i fod yn isel.
- 5.5. Roedd rhai o'r cyflwyniadau hefyd yn cyfeirio at y modd y gall mentrau polisi cyhoeddus sydd â'r nod o hwyluso dychweliad merched i'r farchnad lafur, ychwanegu'n anfwriadol at yr her o sicrhau bod darpariaeth gofal plant ddigonol ar gael drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol. Er enghraifft, cyfeiriodd Dr Tina Hickey at gymhorthdal llywodraeth Iwerddon i rieni er mwyn cynorthwyo â chostau gofal plant, sy'n cynnwys y gofyniad bod angen defnyddio darparwr gofal plant cofrestredig er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y cymorth hwn. Awgrymodd Hickey y gallai hyn arwain at hyrwyddo statws opsiynau gofal plant sefydliadol mewn modd anuniongyrchol, gan ddibrisio cyfraniad posibl gofal gwirfoddol gan aelodau hŷn y teulu sydd â sgiliau iaith mwy sefydledig.
- 5.6. Cyfeiriodd Dr Gwenllian Lansdown Davies at gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno 30 awr o ofal am ddim i blant 3 a 4 oed. Mae'r polisi newydd hwn yn gyfle i'r sector gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg ehangu, ond gallai'r polisi hefyd beri risg ddifrifol petai'n cael ei weithredu heb gynllunio gofalus. Gallai'r prinder o opsiynau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru ar hyn o bryd gael ei waethygu gan rieni yn dewis y ddarpariaeth 30 awr



fwyaf hygyrch, sydd ar hyn o bryd, fel arfer, yn lleoliad cyfrwng Saesneg. Gallai hyn olygu coll cyfle i gyflwyno'r Gymraeg i nifer sylweddol o blant ifanc drwy broses drochi yn y blynyddoedd cynnar ac hefyd colli cyfle i annog eu rhieni i ystyried symud y plant ymlaen at addysg statudol cyfrwng Cymraeg maes o law.

## 6. Galluoedd ac agweddau ieithyddol rhieni

- 6.1. Roedd nifer o gyflwyniadau yn trafod yr heriau sy'n codi pan fydd rhieni yn ceisio hyrwyddo'r defnydd o iaith leiafrifol yn y cartref tra'n meddu ar lefel gyfyngedig o allu eu hunain. Fel yr eglurodd Dr Tina Hickey yn ei chyflwyniad, mae hwn yn fater allweddol wrth i'r ymdrechion i hwyluso lefel uwch o gaffael a defnydd o iaith leiafrifol ymhlith plant ifanc ddigwydd mewn cyd-destunau pan fo gallu ieithyddol y rhieni yn medru amrywio'n sylweddol.
- 6.2. Roedd amrywiaeth o ran gallu ieithyddol rhieni yn her benodol y cyfeiriwyd ato mewn perthynas ag amryw o weithgareddau teuluol yn yr Alban ac Iwerddon. Esboniodd Jennifer Gilmour o *Cròileagan Dhùn Eideann* (yng Nghaeredin) ac Orlaith Ruiséal o *Tús Maith* fod eu sefydliadau yn trefnu sesiynau anffurfiol i gyflwyno Gaeleg neu Wyddeleg i blant ifanc drwy chwarae, cerddoriaeth a straeon. Serch hynny, un o'r anawsterau wrth gynnal sesiynau o'r fath, yw bod gallu'r rhieni sy'n dod i'r sesiynau hyn i siarad Gaeleg neu Wyddeleg yn amrywio'n fawr, ac mae hyn yn golygu y gall y sesiynau hyn droi'n ddigwyddiadau Saesneg yn hawdd iawn. Oherwydd y newidiadau mewn dulliau gofal plant, gwnaed y pwynt ychwanegol ei bod yn gynyddol gyffredin i ofalwr, yn hytrach na'r rhieni, ddod i sesiynau o'r fath gyda'r plant. Ar y cyfan, nid yw'r unigolion hyn chwaith yn meddu ar unrhyw Aeleg neu Wyddeleg. Esboniodd Ruiséal fod *Tús Maith*, mewn ymateb i hyn, wedi dechrau trefnu sesiynau penodol Gwyddeleg yn unig, a bod y deunydd hysbysebu perthnasol yn pwysleisio mai dim ond rhieni neu ofalwyr a all gymryd rhan drwy gyfrwng y Wyddeleg a all fynychu'r sesiwn. Mae'r sesiynau Gwyddeleg yn unig hyn yn cynnig profiad trochi mwy cyflawn i'r plant. Fodd bynnag, nododd Ruiséal y bu'n her i gyflwyno'r sesiynau mwy dethol hyn, yn enwedig mewn ardaloedd bach, clòs.
- 6.3. Rhoddodd Dr Timothy Currie Armstrong drosolwg o ymchwil diweddar sydd wedi dadansoddi profiadau rhieni sydd wedi ceisio defnyddio'r penderfyniad a wnaed i anfon eu plant i addysg cyfrwng Gaeleg fel ysgogiad iddynt wella eu gaffael hwythau ar yr iaith, ac o bosibl, ymestyn ei defnydd yn y cartref. Amlygodd tystiolaeth sydd wedi'i chasglu drwy gyfweiliadau ei bod hi'n bosibl i rieni lwyddo mewn ymdrechion o'r fath, ond y byddai nifer o heriau yn codi ar hyd y ffordd. Ymhlith yr heriau hyn oedd yr anhawster a wynebwyd gan rai rhieni i sicrhau bod datblygiad eu sgiliau Gwyddeleg hwy yn digwydd ar yr un cyflymder â sgiliau eu plant. Eglurodd Armstrong hefyd fod nifer o rieni yn crybwyll eu bod yn teimlo'n rhwystredig neu'n ffôl wrth geisio cynnal trafodaeth deuluol mewn iaith yr oedd eu plant yn ei siarad yn fwy rhugl na hwy. Codwyd y pwynt olaf hwn gan Magaidh Wentworth hefyd yn ystod ei chyflwyniad ar waith *Comann nam Pàrant*. Yn ôl Wentworth, gall diffyg rhuglder wrth gyfathrebu fod yn her benodol i rieni sy'n awyddus i hyrwyddo defnydd iaith leiafrifol yn y cartref, yn enwedig pan fyddant am gyfathrebu'n gariadus â'u plant.
- 6.4. O safbwynt y broblem ynghylch sut i gefnogi rhieni (yn enwedig y rhai â lefel gyfyngedig o allu cyfathrebu) yn eu hymdrechion i sicrhau bod eu plant yn caffael ac yn defnyddio'r



iaith leiafrifol, roedd nifer o'r cyfranwyr yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin partneriaeth agos rhwng y cartref a'r ysgol. Er enghraifft, dadleuai Hickey, er y bu cryn bwyslais ym maes addysg dros y blynyddoedd diwethaf ar yr angen am bartneriaeth rhwng rhieni ac addysgwyr er mwyn datblygu sgiliau iaith a llythrennedd y plant, bod tuedd i'r drafodaeth ganolbwyntio ar yr elfennau sy'n ymwneud â'r ysgol. Roedd yn dadlau bod angen ystyried sut y gall ysgolion helpu i hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd penodol yn y cartref hefyd. Ar y pwynt olaf hwn, yn ystod cyflwyniad Armstrong pan drafodwyd ymdrechion rhieni i sefydlu'r Aeleg fel prif iaith y cartref, dadleuwyd bod y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod y dasg yn haws os oedd y plant yn mynychu ysgolion a oedd yn cynnal ymdrechion rhagweithiol i hyrwyddo'r defnydd o'r Aeleg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn y buarth ac yn y gymuned ehangach. Y ddadl oedd bod ymdrechion o'r fath ar ran yr athrawon yn helpu i ddilysu'r arferion iaith teuluol yr oedd y rhieni yn ceisio'u hybu. Golygai hyn fod plant yn llai tebygol o weld yr Aeleg fel iaith oedd ond yn berthnasol i waith academaidd.

- 6.5. Codwyd y mater o bartneriaeth gan Evas hefyd, a dadleuai fod ei ymchwil ar drosglwyddo iaith yng Nghymru yn cyfeirio at botensial defnyddio ysgolion cyfrwng Cymraeg fel canolfannau a all helpu i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith mewn teuluoedd. Er enghraifft, nododd y gellid defnyddio ysgolion fel canolfannau er mwyn cydlynu rhaglenni sy'n ceisio creu partneriaethau rhwng rhieni (partneriaethau rhwng rhieni sydd â gallu ieithyddol tebyg, neu bartneriaethau pan fo rhai rhieni yn siaradwyr rhugl, ac eraill yn meddu ar afael fwy cyfyngedig ar yr iaith). Awgrymodd Evas y gallai rhieni, drwy bartneriaethau o'r fath, rannu profiadau a cheisio cyngor ar strategaethau ieithyddol gwahanol i'w defnyddio gyda'u plant.
- 6.6. Gan droi o allu rhieni at agweddau rhieni, nododd sawl cyfrannwr i'r gweithdy y gallai fod amrywiaeth o resymau dros awydd rhieni i weld eu plant yn caffael iaith leiafrifol. Er enghraifft, yn ystod ei chyflwyniad yn trafod gwaith *Comann nam Pàrant*, esboniodd Magaidh Wentworth ei bod wedi dod i'r amlwg, wrth i'r diddordeb mewn addysg cyfrwng Gwyddeleg dyfu, fod rhai rhieni yn penderfynu anfon eu plant i ysgolion Gwyddeleg am eu bod am weld yr iaith yn ffynnu, tra bod eraill yn gwneud hyn ar sail cred fwy cyffredinol yng ngwerth gwybyddol neu gymdeithasol amlieithrwydd. Gyda'r grŵp olaf hwn, awgrymwyd nad yw materion fel y defnydd a wneir o'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth, boed hynny ar y buarth neu yn y gymuned ehangach, yn gymaint o bryder iddynt. Codwyd pwyntiau tebyg yn ystod y cyflwyniadau gan Dr Tina Hickey a Dr Ciorstaidh NicLeòid. Yn ystod trafodaethau diweddarach, awgrymwyd bod agweddau gwahanol ymhlith rhieni yn amlygu her y mae'n rhaid i'r sawl sy'n hyrwyddo adfywio iaith ei hwynebu wrth i'w hymdrechion fagu momentwm a denu cynulleidfaoedd newydd. Pan fydd hyn yn digwydd, mae angen i fudiadau adfywio gyflwyno naratif sy'n cyfleu i ble maent am fynd, ond nodwyd bod angen fframio hyn mewn modd sy'n ddigon cynhwysol er mwyn caniatáu i'r mudiad dyfu mewn niferoedd. Awgrymwyd y dylid ystyried ac, o bosibl, ailddiffinio trafodaeth Joshua Fishman ynghylch yr angen am 'eglurder ideolegol cychwynnol' wrth geisio gwyrddo'i dirywiad iaith.<sup>4</sup>
- 6.7. Trafodwyd canfyddiadau o fanteision gwybyddol amlieithrwydd gan yr Athro Antonella Sorace hefyd. Yn ei chyflwyniad, cafwyd gorolwg o ymchwil diweddar sy'n ymwneud â

<sup>4</sup> Joshua A. Fishman, *Reversing Language Shift* (Clevedon, Multilingual Matters, 1991).



'mantais amlieithog' ymhlith plant, gan ddadlau bod angen sicrhau bod dehongliadau cywir o brif gasgliadau'r ymchwil yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd. Yn ôl Sorace, caiff ei dderbyn fwyfwy bellach nad oes sail i nifer o gredoau cyffredin ynghylch y problemau posibl sy'n gysylltiedig ag amlieithrwydd, er enghraifft oedi mewn datblygiad, dryswch yn yr ysgol ac yn y blaen. Yn wir, ystyrir bod y rhod wedi troi yn raddol i'r cyfeiriad arall, wrth i ni glywed yn rheolaidd ynghylch manteision posibl amlieithrwydd i blant, er enghraifft: y bydd plant amlieithog yn fwy deallus; neu y gall amlieithrwydd oedi dirywiad galluoedd gwybyddol penodol (e.e. dementia). Fodd bynnag, dadleuai Sorace ei bod yn bwysig nad yw honiadau o'r fath yn cael eu gorgyffredinoli i bwynt lle y caiff disgwyliadau afrealistig eu creu ymhlith rhieni. Wrth ddarllen y llenyddiaeth ymchwil yn ofalus, gwelir bod plant dwyieithog neu amlieithog yn wahanol i'w gilydd, ac felly mae'r lefel o fudd y gallent ei chael o allu siarad mwy nag un iaith yn amrywio o achos i achos. Ar yr un pryd, dadleuwyd nad oes fawr o dystiolaeth hyd yma i awgrymu unrhyw anfanteision gwybyddol yn sgil amlieithrwydd.

## 7. Dylanwad technoleg ar batrymau ymwneud o fewn y cartref

- 7.1. Thema arall a gododd yn ystod sawl un o gyflwyniadau'r gweithdy oedd dylanwad posibl technoleg ar y modd y bydd aelodau'r teulu yn ymwneud â'i gilydd, ac yn arbennig, ar y modd y bydd plant ifanc yn chwarae ac yn datblygu sgiliau iaith cynnar. Er enghraifft, fel rhan o'i hasesiad o'r ymchwil cyfredol ym maes polisi iaith y teulu, amlygodd yr Athro Kendall King fod dylanwad posibl technoleg ar ymddygiad iaith y teulu yn bwnc allweddol y byddai angen ei ystyried yn fwy manwl dros y blynyddoedd nesaf.
- 7.2. Codwyd thema technoleg fel rhan o gyflwyniad Joanna McPake a'r Athro Lydia Plowman hefyd. Y pwynt cychwynnol oedd y sylw cyfarwydd o ran shifft ieithyddol, bod teuluoedd sydd â phob aelod o'r teulu yn gallu siarad yr iaith leiafrifol yn mynd yn llai a llai cyffredin. Felly, un o'r prif ystyriaethau i'r sawl sy'n ymwneud ag adfywio iaith yw sut i gefnogi teuluoedd sydd am gynyddu defnydd o'r iaith leiafrifol yn y cartref. Fel rhan o'r trafodaethau hyn, dadleuai McPake a Plowman fod angen i ymgyrchwyr iaith heddiw feddwl yn ofalus am arwyddocâd technolegau digidol. Gwelwyd cynnydd aruthrol mewn dyfeisiadau cyfryngau digidol dros y blynyddoedd diwethaf. Bellach, mae technoleg o'r fath yn dylanwadu ar bron pob agwedd ar fywyd teuluol, gyda'r dylanwad ar fywydau plant yn arbennig o drawiadol wrth i batrymau chwarae a dysgu ddod yn fwyfwy digidol. O ystyried hyn, mae McPake a Plowman yn dadlau bod angen i'r sawl sy'n gweithio ym maes adfywio iaith fagu dealltwriaeth o sut gellir harneisio 'arferion chwarae digidol' cyfoes er mwyn hybu a chefnogi ymdrechion i gaffael a defnyddio ieithoedd lleiafrifol yn y cartref. Ar y naill law, mae angen i waith o'r fath ystyried materion sy'n ymwneud â chynllunio technolegau digidol, fel apiau, a deall y gwahaniaeth rhwng y rheini sy'n llywio dewis iaith a'r rheini sydd yn eu hanfod, yn niwtral o ran iaith. Ar y llaw arall, dylid hefyd ystyried y mathau o ymddygiad y bydd rhieni neu ofalwyr yn eu mabwysiadu yn ystod cyfnodau o chwarae digidol, er mwyn annog mathau arbennig o ymddygiad ieithyddol ymhlith y plant. Dylai hyn gynnwys ystyried goblygiadau ieithyddol cysyniad 'rhyngweithio dan arweiniad' (guided interaction), sy'n honni bod plant yn cael y budd mwyaf o'u hymwneud â chyfryngau digidol pan fydd oedolion yn taro cydbwysedd priodol rhwng rhoi arweiniad a chefnogi a chaniatáu annibyniaeth i arbrofi.





**Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 2**



## **Gweithdy 2: Adfywio iaith a thrawsnewidiad bywyd teuluol**

**Dyddiad** 8-9 Medi, 2017

**Lleoliad:** Ysgol Astudiaethau Celtaidd ac Albanaidd, Prifysgol Caeredin

### **Dydd Gwener 8 Medi**

9.45 Croeso a chyflwyniad

#### **10.00 Trawsnewid bywyd teuluol**

Yr Athro Lynn Jamieson (Canolfan Ymchwil Teuluoedd a Pherthnasau, Prifysgol Caeredin)

#### **Plant fel actorion cymdeithasol? Agweddau ar astudiaethau plentynod a hawliau plant**

Yr Athro Kay Tisdall (Canolfan Ymchwil Teuluoedd a Pherthnasau, Prifysgol Caeredin)

11.15 Egwyl

#### **11.45 Ymchwil i bolisi iaith y teulu: i ble rydym yn mynd a pham?**

Yr Athro Kendall King (Prifysgol Minnesota)

#### **Hyrwyddo partneriaeth yn y blynyddoedd cynnar i gefnogi adfywio ieithoedd lleiafrifol**

Dr Tina Hickey (Coleg Prifysgol Dulyn)

13.00 Cinio

14.00 Trafodaeth Panel

Magaidh Wentworth (Comann nam Pàrant)

Gwenllian Lansdown Davies (Mudiad Meithrin)

Órlaith Ruiséal (Tús Maith)

Sine MacIleathain (Bòrd na Gàidhlig)

Jennifer Gilmour (Cròileagan Dhùn Eideann)

15.45 Egwyl

#### **16.15 Chwarae digidol i gefnogi arferion iaith leiafrifol yn y teulu**

Joanna McPake (Prifysgol Strathclyde) a'r Athro Lydia Plowman (Ysgol Addysg Moray House, Prifysgol Caeredin)





## Dydd Sadwrn 8 Medi

### 9.30 **Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd**

Dr Jeremy Evas (Prifysgol Caerdydd)

### **Cynnwys y teulu cyfan mewn dysgu a defnyddio iaith: cyfleoedd a heriau ar gyfer darpariaeth blynnyddoedd cynnar cyfrwng Gwyddeleg**

Ciorstaidh NicLeòid (Astudiaethau Celtaidd ac Albanaidd, Prifysgol Caeredin)

### **Gwaith ideolegol: rhieni ac athrawon fel ymgyrchwyr iaith**

Dr Timothy Currie Armstrong (Sabhal Mòr Ostaig, Prifysgol Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban)

11.15 Egwyl

### 11.45 **Dwyieithrwydd ac adfywio: ffeithiau a ffuglen**

Yr Athro Antonella Sorace (Ysgol Athroniaeth, Seicoleg a Gwyddorau Iaith/Materion Dwyieithrwydd, Prifysgol Caeredin)

### **Rôl ysgolion cyflenwol yn yr Alban: cyfleoedd a chyfyngiadau cynnal a chadw iaith rhwng cenedlaethau**

Dr Andy Hancock (Ysgol Addysg Moray House, Prifysgol Caeredin)

13.00 Cinio

### 14.00 **Dulliau creadigol o drosglwyddo'r Llydaweg yn yr 21ain ganrif**

Dr Michael Hornsby (Canolfan Astudiaethau Celtaidd, Uniwersytet im. Adama Mickiewicza w Poznaniu)

### **Iaith a dychymyg: heriau ystyried polisi iaith y teulu drwy lygaid plentyn**

Dr Cassie Smith-Christmas (Prifysgol Limerick)

15.15 Casgliadau